

|                   |                                                        |
|-------------------|--------------------------------------------------------|
| <b>PWYLLGOR</b>   | <b>Pwyllgor Safonau</b>                                |
| <b>DYDDIAD</b>    | <b>2 Tachwedd 2026</b>                                 |
| <b>TEITL</b>      | <b>Datgan a chofrestru buddiannau mewn cyfarfodydd</b> |
| <b>AWDUR</b>      | <b>Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau</b>     |
| <b>GWEITHREDU</b> | <b>Er gwybodaeth</b>                                   |

## Cefndir

1. Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn rhoi dyletswydd ar aelodau ddatgelu ar lafar gerbron unrhyw gyfarfod, fodolaeth a natur unrhyw fuddiant personol sydd ganddynt mewn busnes sy'n cael ei ystyried. Mae dyletswydd pellach i gofrestru'r buddiant hwnnw drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro sy'n cynnwys (a) manylion y buddiant personol, (b) manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef, a (c) llofnod. Yng Nghyngor Gwynedd pan fydd aelod yn datgan mewn cyfarfod pwyllgor bydd swyddog gwasanaethau democrataidd yn rhoi ffurflen bapur iddo/i, ac yn ei chasglu ar ddiwedd y cyfarfod.

2. Erbyn hyn caiff aelodau fynychu cyfarfodydd o bell. Mae dosbarthu ffurflenni i'r aelodau hynny sy'n ymuno yn rhithiol, a cheisio sicrhau eu bod eu dychwelyd yn golygu cryn dipyn mwy o waith i'r swyddogion. Mae cwblhau a dychwelyd ffurflen (drwy'r post, drwy law neu drwy sganio ac e-bostio) yn llawer mwy trafferthus i aelodau hefyd.

3. Adroddwyd wrth y Pwyllgor y llynedd ein bwriad i ddatblygu, gyda'r Gwasanaethau Democratiaeth a TG, proses i gofrestru buddiannau ar-lein, gan ddefnyddio adnodd Microsoft Forms sydd eisoes gan y Cyngor. Unwaith y bydd aelod wedi datgan buddiant dilynir y broses ganlynol:

- Swyddog yn anfon e-bost yn cynnwys dolen at yr aelod yn ystod y cyfarfod.
- Aelod yn clicio'r ddolen a chwblhau a chyflwyno'r ffurflen ar-lein (gweler Atodiad am fersiwn brawf)
- Y manylion yn cael eu cofnodi ar system iGwynedd (MS Sharepoint) y Cyngor ar gyfer y Gofrestr Buddiannau. Maer' safle iGwynedd yma o dan reolaeth y Swyddog Monitro. Cynhyrchir fersiwn PDF o'r ffurflen hefyd.
- Y Gwasanaeth Democratiaeth yn derbyn e-bost i gadarnhau cwblhau'r ffurflen.
- Aelod yn derbyn e-bost cadarnhad yn cynnwys linc 'darllen yn unig' i fersiwn PDF o'r ffurflen mae newydd gwblhau. Mi fydd blwch post sydd o dan reolaeth y swyddog Monitro yn derbyn copi o'r e-bost yma hefyd.
- Swyddogion democratiaeth yn cofnodi'r buddiant ar system Modern Gov fel ei fod yn ymddangos ar dudalen gwefan yr aelod (hyn yn digwydd eisoes)

- Monitro ymatebion ac atgoffa aelodau sydd heb gwblhau'r ffurflen.

4. Mae'r broses bellach yn weithredol a dilynnir y drefn yma ar gyfer pob aelod sy'n datgan, gan cynnwys y rhai sy'n bresennol yn yr ystafell gyfarfod. Fe'i defnyddir hefaud ar gyfer swyddogion sy'n datgan buddiant mewn cyfarfod pwyllgor.

5. Rydym hefyd yn edrych ar ddatblygu trefn debyg i hwyluso cofrestru cynigion o Roddion a Lletygarwch aelodau a staff.

### **Argymhelliad**

6. Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad